



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Coronafeirws (COVID-19): canllawiau i landlordiaid ac asiantau rheoli yn y sector rhentu preifat

Gwybodaeth am COVID-19 a beth sydd angen i landlordiaid ac asiantau rheoli yn y sector rhentu preifat wneud.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Gorffennaf 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

[Cefndir](#)

---

[Hunanynysu](#)

---

[Ymweld ag eiddo](#)

---

[Cefnogi eich tenantiaid](#)

---

[Hysbysiadau ceisio meddiant](#)

---

[Hysbysiad adran 8: Ffurflen 3](#)

---

[Cymorth ychwanegol](#)

---

[Cymorth a chyngor pellach](#)

---

## Cefndir

Yng Nghymru, mae cyfyngiadau o hyd oherwydd y coronafeirws, ac mae'n bwysig cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau diweddaraf.

**[Darllenwch y canllawiau diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru ar Covid-19.](#)**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:

- [dudalennau Coronafeirws Llywodraeth Cymru](#)
- [tudalen gwirio symptomau GIG 111](#)

Nod y canllawiau hyn yw darparu cyfarwyddyd penodol i landlordiaid ac asiantiaid rheoli yn y sector rhentu preifat ledled Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Hunanynysu

Yn ogystal â dilyn y [canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf](#), mae'n bwysig ichi barhau i roi ystyriaeth i sut y gallwch gefnogi eich tenantiaid.

Os oes rhaid ichi [hunanynysu](#), bydd angen ichi sicrhau bod eich tenantiaid yn gwybod sut i gysylltu â chi, ee drwy e-bost, ar y ffôn neu drwy neges destun, neu os nad yw hyn yn bosibl, drwy aelod o'r teulu neu ffrind.

Mae'n bosibl bod llawer o'ch tenantiaid wedi cael brechiad Covid-19. Fodd bynnag, byddem yn argymhell eich bod yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'ch tenantiaid i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu sefyllfa, rhag ofn eu bod yn arddangos symptomau neu eu bod yn hunanynysu.

Os bydd angen i denant fynd i'r ysbyty o achos COVID-19, dylid glanhau'r eiddo yn drylwyr yn unol â'r [canllawiau a nodir yma](#).

## Ymweld ag eiddo

Nid yw rhwymedigaethau atgyweirio landlordiaid wedi newid. Mae gan denantiaid yr hawl i gartref gweddus, cynnes a diogel ac mae er lles gorau tenantiaid a landlordiaid i sicrhau bod eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr da ac yn rhydd o unrhyw beryglon. Dylech gyfathrebu â'ch tenant/tenantiaid wrth gynllunio unrhyw waith atgyweirio neu gynnal a chadw a dylech hefyd ganiatáu i denantiaid benderfynu eu hunain a oes angen caniatáu mynediad i'r eiddo ai peidio.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn annog landlordiaid i drin materion nad oes brys amdanynt, ond sydd wedi'u heffeithio gan gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, mewn ffordd bragmataidd gan ddefnyddio synnwyr cyffredin. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r eiddo oherwydd cyfyngiadau sydd yn eu lle i fynd i'r afael â COVID-19, neu os nad ydych yn gallu cael contractiwr i wneud y gwaith angenrheidiol, rydym yn argymhell eich bod yn cofnodi eich ymdrechion i gyflawni hyn gan gynnwyr yr holl ohebiaeth gyda'ch tenantiaid.

Darllenwch y [canllawiau ar fynd i gartrefi pobl eraill](#)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Darllenwch y [canllawiau ar gynnal gwaith mewn cartrefi pobl eraill](#)

Darllenwch y [canllawiau ar hwyluso'r broses o weld eiddo i'r cyhoedd.](#)

## Cefnogi eich tenantiaid

Mae'r ffordd gadarnhaol a rhagweithiol y mae nifer o landlordiaid ac asiantiaid yn helpu eu tenantiaid drwy'r argyfwng hwn yn galonogol iawn. Mae rhai landlordiaid wedi negodi cynlluniau talu rhent gyda'u tenantiaid os yw eu hincwm wedi gostwng o ganlyniad i'r argyfwng, a hefyd cynlluniau ad-dalu fforddiadwy os oes ganddynt ôl-ddyledion rhent. Rydym yn eich annog i barhau i gefnogi eich tenantiaid a chynnig gymaint o hyblygrwydd â phosibl drwy gydol yr argyfwng hwn, lle bynnag y mae'n bosibl i chi wneud hynny.

Rydym wedi llunio [canllawiau ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat](#), y gellir eu gweld yma. Rydym hefyd wedi [cynhyrchu canllawiau ar y cymorth sydd ar gael i denantiaid](#). Dylech ddefnyddio'r canllawiau hyn i gyfeirio eich tenant(iaid) i'r cymorth a'r gefnogaeth briodol all fod ar gael iddynt.

## Hysbysiadau ceisio meddiant

Oherwydd pandemig y coronafeirws, mae rheoliadau wedi cael eu gwneud o dan Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n estyn tan 30 Medi 2021 y cyfnod hysbysu byrraf y caniateir i landlordiaid yn y sector rhentu preifat ei roi i denantiaid sydd â thenantiaeth sicr a thenantiaeth fyrddaliadol sicr.

Bydd cyfnod hysbysu 6 mis yn gymwys i hysbysiadau a roddir ar 24 Gorffennaf 2020, neu ar ôl hynny, o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1988, ac eithrio'r rhai sy'n pennu seiliau 7A neu 14 (mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol). Yn achos y seiliau hyn, mae'r gofynion o ran rhoi hysbysiad wedi dychwelyd i fel yr oeddent cyn y coronafeirws ers 29 Medi.

Bydd cyfnod hysbysu 6 mis yn gymwys i hysbysiadau a roddir ar 24 Gorffennaf 2020, neu ar ôl hynny, o dan adran 21 o Ddeddf Tai 1988.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r newidiadau dros dro i'r cyfnodau hysbysu yn cael eu gwneud er mwyn creu rhagor o oedi wrth droi allan yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus.

Bydd yn golygu:

- y bydd llai o bobl yn wynebu digartrefedd oherwydd achos o droi allan, a hynny ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn llai abl i ymateb i'r sefyllfaoedd hyn
- Bydd y rhai sy'n rhentu eu cartrefi yn elwa ar fwy o ddiogelwch, ac yn llai pryderus
- a bydd unigolion sydd mewn perygl o gael eu troi allan yn cael mwy o amser i geisio cymorth i ddatrys unrhyw broblemau.

Sylwch: ar gyfer pob hysbysiad meddiant a roddwyd rhwng 27 Mawrth a 23 Gorffennaf, roedd cyfnod rhybudd o 3 mis yn gymwys ac roedd y cyfnod hwnnw'n parhau'n gymwys tan 28 Medi ar gyfer unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1988 a oedd yn pennu seiliau 7A ac 14 (mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol).

Mae [gwybodaeth am y broses feddiannu bresennol i'w gweld ar GOV.UK](#).

## Hysbysiad adran 8: Ffurflen 3

Wrth gyflwyno hysbysiad adran 8, rhaid defnyddio'r ffurflen a ragnodir. Y ffurflen a ragnodir ar gyfer Cymru yw Ffurflen 3, a welir yn [Atodlen y Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr \(Ffurflenni\) 1997](#). Fodd bynnag, fel nodwyd uchod, mae'r newidiadau yn sgil y pandemig yn golygu bod rhaid rhoi chwe mis o rybudd ac eithrio mewn achosion o ymddygiad anghymdeithasol neu drais domestig. At y diben hwnnw, o ganlyniad i reoliad 15 o [Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 \(Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan\) \(Cymru\) 2020](#), dylid darllen y pwyntiau bwled ym mharagraff 5 o Ffurflen 3 ('earliest date on which court proceedings can be brought') fel a ganlyn:

- Where the landlord is seeking possession on any of grounds 1 to 7, 8 to 13,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

15, 16 or 17 (without ground 7A or 14) court proceedings cannot begin earlier than six months from the date on which this notice is served on you, and in the case of grounds 1, 2, 5 to 7, 9 and 16 court proceedings cannot, in any event, begin before the date on which the tenancy (had it not been assured) could have been brought to an end by a notice to quit served at the same time as the notice.

- Where the landlord is seeking possession on ground 7A (with or without other grounds), court proceedings cannot begin earlier than 1 month from the date this notice is served on you in the case of a fixed term tenancy and, in the case of a periodic tenancy, court proceedings cannot begin before the date on which the tenancy (had it not been assured) could have been brought to an end by a notice to quit served at the same time as this notice.
- Where the landlord is seeking possession on ground 14 (with or without other grounds other than ground 7A), court proceedings cannot begin before the date this notice is served on you.
- Where the landlord is seeking possession on ground 14A (without other grounds), court proceedings cannot begin earlier than two weeks from the date this notice is served on you.
- Where the landlord is seeking possession on ground 14A, court proceedings cannot begin unless the landlord has served, or has taken all reasonable steps to serve, a copy of this notice on the partner who has left the property.
- After the date shown in section 5, court proceedings may be begun at once but not later than 12 months from the date on which this notice is served. After this time the notice will lapse and a new notice must be served before possession can be sought.

Darllenwch y [canllawiau ar y broses bresennol ar GOV.UK](#).

## Cymorth ychwanegol

Gall yr argyfwng Covid-19 beri gofid arbennig os ydych yn cael trafferth talu eich biliau, eich rhent neu eich morgais. Mae nifer o wahanol sefydliadau yn cynnig cyngor a chymorth. Mae rhywfaint o'r cyngor a'r cymorth yn newydd, wedi'i sefydlu i'ch helpu'n ariannol yn ystod yr argyfwng coronafeirws, felly mae'n werth i chi edrych i weld beth allai fod ar gael i chi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cymorth a chanllawiau i fusnesau yng Nghymru** ar LLYW.CYMRU

**Cymorth ariannol i unigolion** ar LLYW.CYMRU

## Cymorth a chyngor pellach

Efallai y byddai o fudd i chi drafod eich sefyllfa ariannol yn fanylach a/neu gael rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth. Ceir rhai dolenni defnyddiol isod.

- **Busnes Cymru**
- **Cyngor ar Bopeth**
- **Cyngor ar Bopeth (Covid-19)**
- Advicelink Cymru: 03444 772 020 Gwasanaeth cyfnewid testun: 03444 111 445  
(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac maent fel arfer yn brysurach ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Nid ydynt ar agor yn ystod gwyliau cyhoeddus)
- **Sgwrsiwch â chynghorydd dyledion Cyngor ar Bopeth ar-lein** (mae'r gwasanaeth sgwrsio hwn ar gael o 8am i 7pm fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw ar gael yn ystod gwyliau cyhoeddus)
- **Sgwrsiwch am fater arall â chynghorydd Cyngor ar Bopeth ar-lein** (mae'r gwasanaeth sgwrsio hwn ar gael o 10am i 4pm fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw ar gael yn ystod gwyliau cyhoeddus)
- **Elusen Dyledion Step Change**
- **Turn2Us**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Coronafeirws (COVID-19): canllawiau i landlordiaid ac asiantau rheoli yn y sector rhentu preifat** a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-landlordiaid-ac-asiantau-rheoli-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).